BRECON BEACONS NATIONAL PARK

# Cylchlythyr Tachwedd 2018

## Adolygiad o Gynllun Rheoli

Dogfen strategol yw Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n cydlynu ac yn integreiddio'r holl gynlluniau eraill yn y Parc Cenedlaethol. Ar hyn o bryd, mae'r Cynllun Rheoli presennol, a gymeradwywyd yn 2015, yn cael ei adolygu a bydd cynllun newydd yn cael ei baratoi ar gyfer 2020-2025. Yn unol â chanllawiau perthnasol, ymgymerir â'r adolygiad hwn fel rhan o ddull integredig â'r Cynllun Datblygu Lleol, gyda'r ddau gynllun yn cael eu paratoi ar y cyd. Y Cynllun Datblygu Lleol yw un o brif ddulliau cyflawni Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ac mae ganddo rôl ganolog wrth gyflawni datblygiad priodol, cynnal nodweddion arbennig y Parc ynghyd â meithrin llesiant cymdeithasol ac economaidd ei gymunedau.

## Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn y Parc Cenedlaethol. Mae hefyd yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio yn ffiniau'r Parc Cenedlaethol.

Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol presennol gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ym mis Rhagfyr 2013. Mae angen llunio adolygiad llawn o'r cynllun bob pedair blynedd. Yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2017, cytunodd aelodau y gallai'r gwaith ddechrau ar adolygu Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Diben yr adolygiad yw nodi a yw'r Cynllun Datblygu Lleol yn parhau i fod yn gyfredol a'r diwygiadau sydd eu hangen er mwyn ystyried amgylchiadau cenedlaethol a lleol newidiol. Mae'r broses hon yn cynnwys sawl cam paratoi, ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd a grwpiau eraill â diddordeb.

## Pa gamau rydym wedi'u cyrraedd?

Rydym wedi llwyddo i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo'n Cytundeb Cyflawni. Mae'r Cytundeb Cyflawni'n cynnwys Amserlen Rheoli Prosiect a Chynllun Cynnwys y Gymuned.

## Beth yw cam nesaf yr adolygiad?

Rydym bellwch yn y Cyfnod Cyfranogi Cyn-adneuo sy'n cynnwys datblygu, asesu ac arfarnu gweledigaeth ac amcanion ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol, gan nodi opsiynau strategol er mwyn sicrhau twf yn y dyfodol a chytuno ar strategaeth ddrafft a ffefrir er mwyn ymgynghori arni. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym hefyd yn galw am Safleoedd Ymgeisiol a fydd yn rhoi'r cyfle i berchnogion tir a'r cyhoedd ddweud wrthym am dir y maent am iddo gael ei ystyried i'w ddatblygu.

## Dywedwch fwy wrthyf am Safleoedd Ymgeisiol

Fel y gwyddoch, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi dechrau adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Fel rhan o'r broses o gasglu tystiolaeth ar gyfer y Cynllun, rydym yn gwahodd y cyhoedd, perchnogion tir a datblygwyr i gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol. Os byddant yn llwyddiannus, cânt eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol arfaethedig at ddefnydd tir amrywiol gan gynnwys: defnydd cyflogaeth, preswyl, twristiaeth, gwastraff a chymunedol.

## Sut y gallaf gyflwyno safle i'r Awdurdod ei ystyried?

Os credwch fod gennych Safle Ymgeisiol rydych am ei gyflwyno, dylech gyflwyno'r canlynol:

- Map Arolwg Ordnans sy'n amlinellu ffiniau'r Safle Ymgeisiol yn glir;
- Ffurflen holiadur asesu a geir ar ein gwefan yn http://www.bannaubrycheiniog.org/ (cliciwch ar 'Cynllunio' ac 'Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol').

Nid oes **unrhyw warant y bydd y safleoedd awgrymedig yn cael eu cynnwys** yn y Cynllun Datblygu Lleol. Fodd bynnag, bydd eu cyflwyno yn galluogi'r Awdurdod i asesu argaeledd safleoedd wrth ystyried gofynion datblygu tir ac opsiynau strategol ar gyfer datblygu.

Dylid nodi **nad oes modd trin cyflwyniadau'n gyfrinachol**, oherwydd natur agored a thryloyw proses y Cynllun Datblygu Lleol. Caiff Safleoedd Ymgeisiol eu cynnwys ar gofrestr safle a fydd ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio.

Croesewir cyflwyniadau o nawr tan 7th Ionawr 2019. Anfonwch gopi caled i'r cyfeiriad canlynol:

- Strategaeth a Pholisi, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys LD3 7HP.

Neu anfonwch gopïau electronig o'r safleoedd i'w cyflwyno i strategy@beacons-npa.gov.uk.

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, e-bostiwch strategy@beacons-npa.gov.uk neu ffoniwch 01874 620412 neu 620468.

## *O ble y gallaf gael mwy o wybodaeth?*

Rydym yn cyhoeddi cymaint o wybodaeth â phosib ar ein gwefan. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am gynnydd a chyfleoedd i gymryd rhan drwy gylchlythyrau a'n gwefan:

http://www.bannaubrycheiniog.org/cynllunio/strategaeth-a-pholisi/adolygiad-or-cynllun-datblygu-lleol/

## *Dolenni Cyflym*

Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol

Adroddiad Adolygu

Cytundeb Cyflawni

Safleoedd Ymgeisiol

## *Derbyn y Newyddion Diweddaraf*